# Eich helpu i gael mwy gan ScottishPower

Gwybodaeth bwysig am ein gwasanaethau ac am ddiogelwch nwy yn y cartref



SCOTTISHPOWER

# Cyflawni dyfodol gwell, yn gyflymach

Yn ScottishPower, rydym yn ymdrechu i gyflawni dyfodol trydanol, glanach. Yr argyfwng hinsawdd yw mater pwysicaf ein hoes, ac rydym wedi ymrwymo i helpu'r Deyrnas Unedig i leihau ei hallyriadau carbon a chyrraedd Sero Net erbyn 2050.

Ar draws popeth a wnawn – o'r ffermydd gwynt rydym yn eu datblygu, i'r rhwydweithiau rydym yn eu hadeiladu a'u cynnal, a'r gwasanaethau cwsmeriaid arloesol rydym yn eu darparu – mae ein nod yn syml: rydym eisiau cyflawni dyfodol gwell, yn gyflymach.

Ers dros 20 mlynedd, rydym wedi bod yn arloesi ynni gwynt ar y tir ac ar y môr ledled y Deyrnas Unedig. Erbyn hyn, mae ein holl dariffau gwyrdd domestig wedi'u cefnogi gan drydan gwyrdd 100%. Nid rhai gwyrdd i ryw raddau ydynt, ond rhai gwirioneddol wyrdd – rydym yn cynhyrchu'r trydan fan hyn o'n ffermydd gwynt yn y Deyrnas Unedig.

Rydym hefyd yn gwybod, wrth i ni ymdrechu i leihau carbon a chyflawni dyfodol gwyrddach, mai dim ond y dechrau yw ynni glân. Dyna pam rydym yn cynnig cynhyrchion arloesol sy'n arbed ynni i'n cwsmeriaid a all helpu i leihau biliau dros amser. O'n datrysiadau gwefru cerbydau trydan i'n tariffau Amser Defnydd sy'n darparu trydan rhatach pan fydd y galw'n isel, gall cwsmeriaid wneud dewisiadau mwy deallus ar gyfer eu cartref a'r blaned.



# Ffyrdd rhwydd o reoli'ch ynni

**Mynediad syth ar-lein**
Cyflwynwch ddarlleniadau mesurydd, talwch eich biliau a chadwch lygad ar eich defnydd o ynni'n rhwydd trwy greu a defnyddio eich cyfrif ar-lein.


**Rheolaeth ar flaenau'ch bysedd**
Gydag Ap ScottishPower, gallwch reoli'ch cyfrif unrhyw bryd, unrhyw le. Lawrlwythwch yr ap am ddim o'r App Store neu Google Play.

**Syml. Rhwydd. Gwyrdd.**
Dewiswch gyfrif di-bapur i gael eich biliau a'r wybodaeth am eich cyfrif drwy e-bost yn lle drwy'r post. Llai o annibendod i chi, gwell i'r blaned.

**Rheoli'ch Debyd Uniongyrchol**
Cadwch reolaeth ar eich taliadau misol gyda'n Rheolwr Debyd Uniongyrchol – ar gael yn eich cyfrif ar-lein ac Ap ScottishPower.

**Dod o hyd i dariff sy'n iawn i chi**
Wedi newid eich meddwl am eich tariff? Gallwch newid i dariff arall ScottishPower am ddim unrhyw bryd.

**Cysylltu â ni pan fydd yn gyfleus i chi**
Rydym yn cynnig amrywiaeth o ffyrdd o gysylltu – o e-bost i we-sgwrs i'n llinell ffôn. Trwy ein gwasanaeth ffonio'n ôl, gallwn gadw'ch lle a'ch ffonio'n ôl pan ddaw eich tro.



Gallwch weld crynodeb syml o'ch biliau a'ch taliadau diweddaraf yn **scottishpower.co.uk/simplebill** neu cofrestrwch yn **scottishpower.co.uk/register**

# Helpu i wneud i'ch ynni fynd ymhellach

Rydym yn deall bod aros yn gynnes ac yn gyfforddus ar yr un pryd â chadw eich costau ynni'n fforddiadwy yn gallu bod yn heriol. Gan ei bod ni'n cyflenwi ynni i chi, rydym eisiau helpu. O roi cyngor i chi ar arbed ynni i osod mesuryddion deallus, rydym eisiau helpu i wneud eich cartref mor effeithlon o ran ynni â phosibl. Gallai un newid yn unig wneud gwahaniaeth.

## Awgrymiadau i arbed ynni

Gallai fod yn haws arbed ynni yn eich cartref nag y dychmygwch. Gallai rhai newidiadau bach, hyd yn oed, eich helpu i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon a lleihau eich biliau ynni.



**Stopiwch wastraffu arian trwy eich sychwr gwallt**
Sychwyr gwallt yw'r teclynnau harddwch sy'n defnyddio'r mwyaf o ynni o bell ffordd. Os nad oes brys arnoch, gadewch i'ch gwallt sychu'n naturiol. Neu defnyddiwch y gosodiad oeraf - mae'n defnyddio llai o ynni.



**Peidiwch ag anghofio… treuliwch lai o amser yn y gawod**
Gallech arbed £8 y flwyddyn ar eich biliau ynni trwy dreulio un funud yn llai yn y gawod. Efallai na fyddwch yn gallu canu cynifer o ganeuon, ond gallwch leihau eich defnydd o ynni a dŵr.



**Rhowch seibiant i'ch oergell**
Mae oergelloedd yn defnyddio llawer o drydan, ond ni allwn wneud hebddynt. Gwnewch yn siŵr eu bod yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon trwy wirio nad ydynt yn rhy oer – rydym ni'n argymell 38F (3.3OC). Ac os byddwch yn mynd i ffwrdd am gyfnod, diffoddwch nhw. Bydd y seibiant yn eu helpu i redeg yn fwy effeithlon pan fyddwch chi 'nôl.



**Tynnwch y plwg a diffoddwch ddyfeisiau**
Efallai nad yw gadael un neu ddwy ddyfais ymlaen wrth y plwg ymddangos yn beth mawr, ond mae'n cronni'n gyflym. Rhowch y gorau i adael pethau yn y modd segur a thynnwch yr holl blygiau o'r wal os byddwch chi'n mynd allan – gallai'r cartref cyffredin arbed rhwng £50 ac £80 y flwyddyn.



**Mae gadael dyfeisiau yn y modd segur yn costio mwy nag y meddyliech**
Gallech arbed £30 y flwyddyn trwy gofio diffodd eich dyfeisiau'n llwyr yn hytrach na'u gadael yn y modd segur.

Mae'r awgrymiadau hyn yn dod o wefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (**energysavingtrust.org.uk**) ac maen nhw'n adlewyrchu defnydd cyfartalog o ynni. I gael mwy o wybodaeth ac awgrymiadau ynglŷn ag arbed ynni, ewch i **scottishpower.co.uk**



## Ynni mwy deallus

Mesuryddion deallus yw'r genhedlaeth newydd o fesuryddion nwy a thrydan a fydd yn ei gwneud yn haws i chi weld arbedion ynni a'ch helpu i leihau eich biliau ynni. Gyda mesurydd deallus, fe allech hefyd fod yn gymwys ar gyfer ein tariffau Amser Defnydd, sy'n cynnig trydan rhatach pan fydd y galw'n isel. Mae eich mesurydd deallus yn anfon eich darlleniadau atom yn awtomatig, felly ni fydd angen i chi wneud hynny. Chi sy'n dewis pa mor aml y cawn ni'r darlleniadau hyn. Gallwch ddewis bob hanner awr, bob dydd neu bob mis.

Gyda'ch Sgrîn Arddangos yn y Cartref, gallwch:

- Weld gwybodaeth amser real gywir
- Gweld faint yn union rydych yn ei wario mewn punnoedd a cheiniogau
- Cael syniad cliriach o lawer o'r hyn rydych yn gwario arian arno, fel y gallwch leihau unrhyw ddefnydd diangen o ynni

Gallwch drefnu apwyntiad gosod heddiw yn **scottishpower.co.uk/smartbook** neu ein ffonio ni ar **0800 027 0072**.

## Cadw'r gwres i mewn

Os nad yw'ch cartref wedi'i inswleiddio'n iawn gallech fod yn gwastraffu ynni bob tro y trowch y gwres ymlaen. Inswleiddio eich cartref yw un o'r ffyrdd gorau o arbed arian a helpu i leihau eich biliau ynni. Ac rydym ni eisiau helpu.

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau a ble rydych yn byw, mae'n bosibl y bydd gennych hawl i gael cymorth ariannol tuag at gost inswleiddio a gwelliannau gwresogi yn eich cartref. I gael gwybod a ydych yn gymwys, cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni:

- Yn Lloegr, ffoniwch **0800 444 202**
- Yng Nghymru, ffoniwch **0808 808 2244**
- Yn yr Alban, ffoniwch **0808 808 2282**
- Gallwch wneud hyn ar-lein yn **energysavingtrust.org.uk**

## Ein Siarteri Cwsmeriaid

I'ch helpu i gael y budd mwyaf o'ch cyfrif ynni gyda ni, rydym wedi cynhyrchu cyfres o Siarteri Cwsmeriaid sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi ac yn amlinellu ein rhwymedigaethau ni i chi. Gallwch ddarllen a lawrlwytho'r rhain trwy ymweld â **scottishpower.co.uk/customer-charters**

- Eich bil nwy a thrydan
- Cwsmeriaid y mae arnynt angen cymorth ychwanegol
- Mesuryddion rhagdalu ("Talu Wrth i Chi Ddefnyddio")
- Gweithdrefn ymdrin â chwynion
- Ymweld â'ch cartref
- Gwres heb bryder

# Cadw eich ynni'n ddiogel

Mae bob amser yn rhoi tawelwch meddwl gwybod bod eich dyfeisiau nwy yn ddiogel ac yn gweithio'n dda. Ac oherwydd ein bod ni'n cyflenwi ynni i chi, mae eich diogelwch yn hollbwysig i ni. Dyma'r wybodaeth bwysig y mae arnoch ei hangen i sicrhau bod eich dyfeisiau nwy yn ddiogel ac yn gweithio'n dda.

## Archwiliadau diogelwch nwy

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cynghori pob defnyddiwr nwy i drefnu bod peiriannydd sydd ar y gofrestr Diogelwch Nwy yn archwilio diogelwch eu dyfeisiau a'u ffitiadau nwy bob blwyddyn.

Rydym yn cynnig archwiliad diogelwch nwy blynyddol rhad ac am ddim gan beiriannydd cwbl gymwys i'n cwsmeriaid Gwasanaethau Blaenoriaethol cymwys ar gais.

Byddwch yn gymwys i gael archwiliad diogelwch nwy blynyddol rhad ac am ddim os ydych yn berchen ar eich cartref a'i feddiannu, yn derbyn budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd ac:

- yn byw gydag un plentyn o leiaf sy'n iau na phum mlwydd oed; neu
- rydych o oed pensiwn, yn anabl neu â salwch cronig a naill ai:
  - yn byw ar eich pen eich hun; neu
  - yn byw gyda phobl eraill, sydd oll o oedran pensiwn, yn anabl, â salwch cronig neu'n iau nag 18 oed
- nid ydych wedi cael archwiliad diogelwch nwy o fewn y 12 mis diwethaf

Os ydych yn rhentu eiddo, mae eich landlord yn gyfrifol am drefnu archwiliad diogelwch nwy blynyddol.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â ni ar **0800 027 0072**.



## Gwiriadau diogelwch pwysig

### Peidiwch byth â:

- defnyddio dyfais nwy os ydych yn credu nad yw'n gweithio'n iawn
- gorchuddio dyfais neu rwystro'r awyrellau darfudo
- atal neu rwystro unrhyw ddellt awyru sefydlog, brics aer neu ffliwiau allanol.

### Arwyddion rhybudd

Gallai'r canlynol fod yn arwyddion efallai nad yw'ch dyfais nwy yn gweithio'n iawn:

- fflamau melyn neu oren (ac eithrio mewn tanau sy'n rhoi effaith tanwydd)
- staeniau huddyglyd neu farciau llosg ar offer nwy neu o'u hamgylch
- golau peilot sy'n diffodd yn aml.

# Dyfeisiau nwy anniogel

Os bydd y peiriannydd yn canfod bod dyfais yn beryglus yn ystod archwiliad diogelwch nwy, bydd yn gofyn am eich caniatâd i wneud y gosodiad yn ddiogel trwy ddatgysylltu neu ddiffodd y cyflenwad nwy neu'r ddyfais, a fydd yn golygu na fydd modd ei defnyddio tan iddi gael ei hatgyweirio neu ei hamnewid ac nad yw'n achosi unrhyw berygl mwyach. Os bydd hyn yn digwydd ac mae arnoch angen cymorth neu gyngor, gallwch ffonio rhif ymholiadau'r Gofrestr Diogelwch Nwy ar **0800 408 5500** (mae'r llinellau ar agor o 9am tan 5.30pm o ddydd Llun i ddydd Iau, ac o 9am tan 5pm ar ddydd Gwener). Fel arall, ewch i **gassaferegister.co.uk**

## Gwarchod rhag carbon monocsid

Ni allwch ei weld, ei arogleuo na'i flasu, ond gall nwy carbon monocsid ladd neu anafu'n ddifrifol mewn ychydig oriau. Yn y cartref, gall nwy carbon monocsid gael ei gynhyrchu gan offer nwy diffygiol. Mae symptomau gwenwyn carbon monocsid yn gallu cael eu camgymryd yn aml am y ffliw neu wenwyn bwyd, ac fe allent gynnwys pob un neu unrhyw un o'r canlynol:

- cur pen sy'n digwydd yn fynych
- cyfog, teimlo'n sâl neu boen yn y stumog
- pendro
- blinder neu deimlo'n gysglyd
- poenau yn y frest
- problemau â'r golwg

Os ydych chi'n dioddef unrhyw un o'r rhain, ceisiwch gyngor meddygol ac:

- ewch i gael awyr iach ar unwaith, ac agorwch yr holl ddrysau a ffenestri i awyru'r eiddo
- diffoddwch y ddyfais a pheidiwch â'i defnyddio eto tan ei bod wedi cael ei harchwilio gan beiriannydd sydd ar y gofrestr Diogelwch Nwy
- diffoddwch y cyflenwad nwy wrth y falf reoli argyfwng ar y mesurydd oni bai bod y mesurydd wedi'i leoli yn y seler/yr islawr

Os oes perygl uniongyrchol, ffoniwch y rhif Argyfwng Nwy Cenedlaethol 24 awr ar **0800 111 999**.

Gall gosod larwm carbon monocsid clywadwy, sy'n cydymffurfio â safon ddiogelwch Brydeinig neu Ewropeaidd berthnasol, leihau perygl marwolaethau ac anafiadau a achosir gan wenwyn carbon monocsid. I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ynglŷn â pheryglon gwenwyn carbon monocsid, a larymau clywadwy addas, ewch i **co-bealarmed.co.uk**





## Gas emergencies

Os byddwch yn arogleuo nwy, neu'n amau bod nwy yn dianc, diffoddwch y cyflenwad nwy wrth y falf rheoli mesurydd ar unwaith, oni bai bod y mesurydd wedi'i leoli yn y seler/islawr. Diffoddwch bob fflam noeth, peidiwch â gweithredu switshis trydanol (gan gynnwys troi switshis golau ymlaen neu i ffwrdd), ac awyrwch yr eiddo drwy agor drysau a ffenestri.

Ffoniwch y rhif Argyfwng Nwy Cenedlaethol 24 awr **0800 111 999**. Peidiwch a throi'r cyflenwad nwy ymlaen eto tan fod y gosodiad wedi cael ei wirio gan beiriannydd nwy sydd ar y gofrestr Diogelwch Nwy.

## Ein hymrwymiad i chi

Yn ScottishPower, rydym ni'n credu mewn trin cwsmeriaid yn deg. Credwn mai'r ffordd orau o wneud hyn yw trwy wrando ar ein cwsmeriaid, sy'n ein helpu i ddarparu'r hyn maen nhw ei eisiau ac yn ei ddisgwyl gan eu cyflenwr ynni. O'n hadborth gan gwsmeriaid, rydym wedi amlygu'r gwerthoedd allweddol y mae cwsmeriaid yn eu disgwyl gan eu cyflenwr ynni: bod yn rhwydd ymdrin ag ef, cyflenwr y gallwch ymddiried ynddo, bod yno pan fydd arnoch ein hangen, yn deg ac yn gymdeithasol gyfrifol a darparu gwerth am arian. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **scottishpower.co.uk/treating-customers-fairly**

## Cael pethau'n iawn

Ceisiwn roi'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Ond os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, byddwn yn ymchwilio bob tro ac yn gwneud popeth y gallwn i unioni'r sefyllfa. Rydym yn dilyn proses 3 cham i sicrhau bod eich cwyn yn cael ei datrys cyn gynted â phosibl. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn ymdrin â chwynion, a manylion llawn ein Gweithdrefn Ymdrin â Chwynion, ewch i **scottishpower.co.uk/complaints**

Os nad yw'ch cwyn yn cael ei datrys o fewn 8 wythnos o'r dyddiad y derbyniwn y gŵyn, neu os ydych yn derbyn ein llythyr ymateb terfynol ac yn parhau i fod yn anfodlon, gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Cyflenwi Ynni annibynnol ar **0330 440 1624** neu drwy fynd i **ombudsman-services.org/complain-now**

## Angen cymorth ychwanegol?

## Ein Gwasanaethau Blaenoriaethol

Rydym eisiau rhoi cymaint o gymorth â phosibl i'r cwsmeriaid hynny y mae arnynt ei angen. Gallech fod yn gymwys i ymuno â'n Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol am nifer o resymau, yn amrywio o salwch cronig neu anabledd i newid i'ch amgylchiadau personol. Os deuwn i wybod y byddech chi (neu rywun yn eich cartref) yn elwa o unrhyw un o'n Gwasanaethau Blaenoriaethol, byddwn yn cynnig eich ychwanegu at ein Cofrestr. Fel arall, rhowch wybod i ni os ydych yn credu eich bod yn gymwys. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i scottishpower.co.uk/psr neu ffoniwch ni ar **0800 027 0072**. Bydd eich cwmni dŵr hefyd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol a allai fod o gymorth. Gallwch gael gwybod mwy yn ofwat.gov.uk neu drwy gysylltu â'ch cwmni dŵr yn uniongyrchol.

## Cronfa Galedi ScottishPower

Nod Cronfa Galedi ScottishPower yw helpu cwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu biliau ynni o ganlyniad i incwm isel neu amgylchiadau eraill. I fod yn gymwys, mae'n rhaid eich bod wedi cysylltu ag asiantaeth Cyngor ar Ddyled gydnabyddedig fel y Llinell Ddyled Genedlaethol ar **0800 808 4000** (mae'r llinellau ar agor o 9am tan 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac o 9.30am tan 1pm ar ddydd Sadwrn) i gael cyngor annibynnol, rhad ac am ddim ar ddyled. Yna, dylech wneud cais i Gronfa Galedi ScottishPower trwy'r gweinyddwr annibynnol yn **sedhardship.fund** neu drwy ffonio **0808 800 0128** (mae'r llinellau ar agor o 9am tan 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener). Os yw'ch cais yn llwyddiannus, gallai'r ôl-ddyledion ar eich cyfrif gael eu clirio neu eu lleihau.



# Gwybod eich hawliau mewn marchnad ynni sy'n newid

## Cymorth gyda phroblem ynni

Cysylltwch â Cyngor ar Bopeth os ydych chi angen cymorth gyda phroblem ynni. Mae hyn yn cynnwys problemau gyda'ch biliau neu fesuryddion, neu os ydych chi'n cael trafferth talu am yr ynni rydych chi'n ei ddefnyddio. Nhw yw'r ffynhonnell cymorth a chyngor annibynnol am ddim ar ynni.

Ewch i: **citizensadvice.org.uk/energy**
Neu cysylltwch â gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar:
Ffoniwch: **0808 223 1144** (llinell Gymraeg)
Ffôn testun: **18001 ac yna 0808 223 1144**
Llun-Gwener, 9am–5pm
Mae galwadau am ddim

### Rheoli eich sefyllfa drwy chwilio am well bargen ynni

Am arbed arian drwy newid tariff neu gyflenwr?

Defnyddiwch ein hadnodd cymharu prisiau
**energycompare.citizensadvice.org.uk**

## Gostwng eich biliau

Os ydych chi am dalu llai heb newid cyflenwr, mae llawer o bethau y gallwch chi eu gwneud i arbed arian.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Simple Energy Advice**
(Cymru a Lloegr)

Ewch i: **simpleenergyadvice.org.uk**
Neu ffoniwch: **0800 444 202**
Llun-Gwener, 8am-8pm
Sad-Sul, 9am-5pm
Mae galwadau am ddim

**Nyth** (Cymru yn unig)

Ewch i: **nyth.llyw.cymru**
Neu ffoniwch: **0808 808 2244**
Llun-Gwener, 9am–6pm
Mae galwadau am ddim

citizens advice

Lluniwyd gan Cyngor ar Bopeth ac anfonwyd atoch chi gan eich cyflenwr ynni. Mawrth 2021.

# Cysylltu â ni

Rydym eisiau helpu. Os oes gennych ymholiad am y daflen hon, neu unrhyw agwedd ar ein gwasanaeth, cysylltwch â ni.

**Llythyr**
ScottishPower, Customer Services
320 St. Vincent Street
Glasgow G2 5AD

**Gwefan**
scottishpower.co.uk

**Ffôn**
0800 027 0072

Llinellau ar agor dydd Llun i ddydd Gwener 8.30am to 7pm, dydd Sadwrn 8.30am to 1.30pm.

---

# Anawsterau clyw neu leferydd?

Yn dibynnu ar eich anghenion, mae'r Gwasanaeth Testun Cenhedlaeth Nesaf (NGTS) yn cynnig amrywiaeth o offer a gwasanaethau sy'n gallu eich helpu i gysylltu â ni. Ewch i ngts.org.uk i gael rhagor o wybodaeth.

---

# Cysylltiadau eraill defnyddiol

**Argyfyngau nwy (24 awr)**
0800 111 999

**Argyfyngau trydan (24 awr)**
Rhadffôn 105

---

Mae fersiynau Saesneg a phrint bras o'r daflen hon ar gael yn **scottishpower.co.uk/standards**

Rydym yn deall pwysigrwydd cadw eich manylion personol yn ddiogel. I gael gwybod mwy, ewch i **getsafeonline.org**

---

SCP6849 JUL 21 WEB WELSH

SCOTTISHPOWER